

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mercher, 27 Chwefror 2013

Amser:
09:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Alun Davidson
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk

Agenda

Sesiwn anffurfiol (preifat)

1. Ymchwiliad i reoli gwastraff – sesiwn cwmpasu (09.30 – 11.00)

(Tudalennau 1 – 22)

Andy Phillips, Rheolwr – Astudiaethau Cenedlaethol, Swyddfa Archwilio Cymru

Sesiwn gyhoeddus

2. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

3. Llygriad cynhyrchion cig – tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (11.00 – 11.45)

Alun Davies AC, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd

Gary Haggaty, Dirprwy Gyfarwyddwr, Materion Gwledig

Geraint Williams, Arweinydd Polisi a Strategaeth Bwyd a'r Farchnad

4. Llygriad cynhyrchion cig – tystiolaeth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (11.45 – 12.30) (Tudalennau 23 – 28)

E&S(4)-07-13 papur 1

Yr Arglwydd Jeff Rooker, Cadeirydd

Catherine Brown, Prif Weithredwr
Steve Wearne, Cyfarwyddwr Cymru

5. Papurau i'w nodi

**5a. Craffu ar waith Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy –
Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y sesiwn ar 21 Chwefror (Tudalennau 29 – 33)
E&S(4)-07-13 papur 2**

Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

E&S(4)-07-13 papur 1

Halogi Cynnyrch Cig – Tystiolaeth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae'r ASB yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth a sefydlwyd ym mis Ebrill 2000 dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. A hithau'n Adran o'r Llywodraeth, yn rheoleiddiwr annibynnol ac yn gorff diogelu defnyddwyr, mae'r ASB yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i weithio gyda busnesau i'w helpu i gynhyrchu bwyd diogel. Mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol i orfodi rheoliadau diogelwch bwyd.

Mae'r ASB yn adran y DU gyfan sy'n gweithio mewn maes o gyfrifoldeb datganoledig. Mae'r ASB yn atebol i Senedd y DU ac i gynulliad a senedd cenhedloedd datganoledig y DU. Mae swyddogaethau'r ASB yn cynnwys cynghori Gweinidogion yn y pedair gweinyddiaeth am faterion sy'n dod o dan ei chylch gwaith. Mae cylch gwaith yr ASB yng Nghymru yn cynnwys diogelwch bwyd, safonau bwyd (labelu ac eithrio labelu maeth, cyfansoddiad a dilysrwydd) a bwyd anifeiliaid.

Y digwyddiad cyfredol: y dechreuad

Ar 15 Ionawr 2012, cyhoeddodd Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon (FSAI) ddatganiad i'r wasg yn cyhoeddi canlyniadau arolwg bach o gynhyrchion eidion a oedd wedi'u profi am DNA rhywogaethau eraill. Cynhaliwyd y profion ar 27 o samplau o fyrgys a 50 o samplau o gynhyrchion bwyd eraill (31 cig eidion ac 19 salami). Dangosodd y canlyniadau bod llawer o'r cynhyrchion yn cynnwys olion DNA moch (gyfwerth â llai na 0.1% o gyfanswm cynnwys cig y cynnyrch). Roedd naw o'r byrgys yn dangos olion DNA ceffylau ac yn un o'r byrgys, sef cynnyrch *Tesco Everyday Value*, dangosodd y canlyniadau bod cig ceffyl yn cyfrif am 29% o gyfanswm cig y cynnyrch.

Roedd y cynnyrch *Tesco Everyday Value* wedi'i weithgynhyrchu gan Silvercrest yng Ngweriniaeth Iwerddon (RoI). Roedd y byrgys a oedd yn cynnwys olion DNA ceffylau wedi'u cynhyrchu gan Liffey Foods (RoI) a Dalepak (Lloegr). Roedd byrgys yn cynnwys olion o DNA moch wedi'u cynhyrchu gan y tri ffatri cig hyn.

Cafodd yr ASB rywfaint o wybodaeth am hyn gan FSAI cyn eu cyhoeddiad. Ym mis Tachwedd 2012, mewn cyfarfod cydgysylltu arferol rhwng yr ASB ac FSAI, cafodd yr ASB wybod bod yr FSAI yn datblygu methodoleg ar gyfer profi am DNA ceffylau mewn cynhyrchion cig, ac y byddai'r FSAI yn diweddarau'r ASB am y cynnydd yn hyn o beth. Cynigiodd yr ASB gynnal menter samplu ar y cyd maes o law pan fyddai'r fethodoleg wedi'i phrofi'n gadarn. Ar 10 Ionawr 2013, cynghorodd yr FSAI eu bod yn cynnal gwiriad dilysrwydd ar gynhyrchion cig. Ar 14 Ionawr, dywedodd FSAI wrth yr ASB fod eu profion wedi dangos bod rhai o'r cynhyrchion wedi'u halogi, a bod rhai o'r cynhyrchion dan sylw wedi'u dosbarthu i Tesco ac Iceland ledled y DU ac i siopau Lidl yng Ngogledd Iwerddon.

Lansiodd yr ASB ymchwiliad brys ac mae'n parhau i gydweithio'n agos ag adrannau eraill y Llywodraeth, awdurdodau lleol a'r diwydiant bwyd yn hyn o beth. Yn ei gynllun gweithredu pedwar cam, a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr, mae'r ASB wedi ymrwymo i:

- 1) Barhau gyda'r adolygiad brys o olrheiniadwyedd y cynhyrchion bwyd a nodwyd yn arolwg FSAI.
- 2) Mewn cydweithrediad ag Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon, ymchwilio'n fanylach i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr arolwg er mwyn deall yn well pa ffactorau a allai fod wedi arwain at yr achosion o halogiad lefel isel.
- 3) Ynghyd ag awdurdodau lleol perthnasol ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon, ystyried p'un a yw'n briodol cymryd unrhyw gamau cyfreithiol yn dilyn yr ymchwiliad.
- 4) Gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yr adrannau materion gwledig datganoledig, awdurdodau lleol ar astudiaeth DU-gyfan o ddilysrwydd bwyd mewn cynhyrchion cig wedi'u prosesu.

Cig ceffyl: risgiau

Mae cig ceffyl a gynhyrchir mewn ffordd hylan mewn sefydliad cymeradwy yn peri dim mwy o risg nag unrhyw gig arall. Mae pum lladd-dy yn y DU wedi'u cymeradwyo i drin ceffylau. Nid yw'r un o'r rhain yng Nghymru. Cafodd tua 10,000 o geffylau eu lladd i'w bwyta gan bobl yn y lladd-dai hyn y llynedd a chafodd y cyfan bron yn ddiwahân ei allforio i Ewrop, yn bennaf i Ffrainc, Gwlad Belg a'r Eidal.

Mae pryderon wedi'u codi am bresenoldeb meddyginiaeth filfeddygol gyffredin, sef phenylbutazone neu "bute", mewn cig ceffyl a gynhyrchir yn y DU. Mae rheolaethau ar waith er mwyn cadw cig ceffyl sy'n cynnwys "bute" o'r gadwyn fwyd, gan fod y cemegyn hwn yn gallu achosi anhwylder gwaed prin ond difrifol mewn pobl. Ar sail y dystiolaeth gyfredol, nid yw'n bosibl nodi lefel ddiogel o olion "bute" mewn cig, ond mae Prif Swyddog Meddygol Lloegr wedi cynghori y byddai unrhyw risg o fwyta cig sy'n cynnwys "bute" yn isel iawn.

Fel rhan o system reolaethau'r ASB, fel yr awdurdod gorfodi mewn lladd-dai, cyflwynwyd system "rhyddhau positif" ar gyfer ceffylau a gaiff eu lladd yn y DU. Golyga hyn nad yw carcasau ceffyl yn cael eu rhyddhau o'r lladd-dy i'r gadwyn fwyd tan iddynt gael prawf negyddol am bresenoldeb "bute"

Cafodd y byrgyrs y dangosodd y profion eu bod yn cynnwys DNA ceffylau yn arolwg gwreiddiol FSAI eu profi hefyd am bresenoldeb "bute". Dangosodd yr holl ganlyniadau nad oedd y cig yn cynnwys "bute".

Labelu bwyd a dilysrwydd

Ymddengys i'r ASB bod dau fath o halogiad yn digwydd.

Lle bo halogiad dybryd, megis y byrgyr *Tesco Everyday Value* a nodwyd yn arolwg gwreiddiol FSAI, mae'n anodd gweld sut y gallai hyn fod wedi digwydd heblaw am drwy anghymhwyster dybryd neu drwy ymgais fwriadol i ddefnyddio cig ceffyl yn lle cig eidion ar ryw gam o'r broses gynhyrchu.

Mae Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 yn mynnu bod bwyd yn cael ei labelu gyda lleiafswm o wybodaeth, yn cynnwys rhestr gynhwysion. Rhaid i unrhyw sylwedd a ddefnyddir yn fwriadol wrth gynhyrchu bwyd gael ei restru ar y rhestr gynhwysion.

Lle bo olion o DNA rhywogaethau eraill wedi'u canfod mewn cynhyrchion eidion, mae'n bosibl ei bod wedi digwydd drwy groeshaloga neu ddwyn drosodd o wahanol linellau cynhyrchu ar ryw gam yn ystod y gadwyn fwyd. Nid oes yn rhaid cynnwys olion o sylwedd na chafodd ei ychwanegu'n fwriadol yn ystod y broses gynhyrchu yn y rhestr gynhwysion. Serch hyn, cyfrifoldeb busnesau bwyd yw sicrhau bod systemau rheoli safonau a diogelwch bwyd priodol ar waith er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw risg o groeshaloga neu ddwyn drosodd rhwng llinellau cynhyrchu.

Samplu cynhyrchion eidion wedi'u prosesu yn y DU ar gyfer cig ceffyl

Yn 2012/2013, darparodd yr ASB gyllid gwerth £1.6m i awdurdodau lleol y DU at ddibenion rhaglen samplu a monitro bwyd genedlaethol. Mae'r rhaglen hon yn ategu gweithgarwch samplu arall yr awdurdodau lleol, a'r nod yw helpu i sicrhau gwiriadau penodol seiliedig ar risg mewn porthladdoedd a ledled y gadwyn fwyd. Y meini prawf allweddol wrth benderfynu pa wiriadau sy'n cael eu cynnal yn y rhaglen hon yw:

- tystiolaeth o bryder penodol o ran bwyd neu fwyd anifeiliaid penodol;
- bod y mater yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd neu ddiogelu defnyddwyr;
- bod modd gorfodi'r mater;
- bod dulliau dadansoddi ar gael yn barod.

Nid yw samplu a dadansoddi cynhyrchion eidion wedi'u prosesu i weld a ydynt yn cynnwys cig ceffyl wedi bod yn rhan o raglenni a ariannwyd gan yr ASB ers 2003. O'r adeg honno hyd at arolwg FSAI a gyhoeddwyd fis diwethaf, nid oedd unrhyw dystiolaeth neu ymwybyddiaeth bod hyn yn fater o bryder sylweddol.

Cafodd yr ASB wybod am ganlyniadau arolwg FSAI ar 7 Chwefror. Roedd y canlyniadau yn dangos halogiad dybryd o gynnyrch lasagne cig eidion *Findus* gyda chig ceffyl. Roedd y gadwyn fwyd yn arwain at y cynnyrch hwn yn gwbl wahanol i'r gadwyn fwyd a arweiniodd ar y byrgyr *Tesco Everyday Value* yn arolwg FSAI. Y diwrnod hwnnw felly, cyhoeddodd yr ASB ei bod yn mynnu bod y diwydiant bwyd yn profi holl linellau cynhyrchu cynhyrchion eidion wedi'u prosesu megis byrgyrs eidion, peli cig, a lasagne er mwyn chwilio am halogiad dybryd gan gig ceffyl (h.y. lle bo cig ceffyl heb ei ddatgan mewn cynnyrch cig wedi'i brosesu yn cynrychioli o leiaf 1% o gynnwys cig y cynnyrch hwnnw). Nodwyd hefyd y byddai canlyniadau'r profion hyn yn cael eu cyhoeddi.

Cafodd canlyniadau cyfres gyntaf o brofion y diwydiant eu cyhoeddi gan yr ASB ar 15 Chwefror. O 2,501 o ganlyniadau, cafwyd 29 prawf positif ar gyfer cig ceffyl uwchlaw'r terfyn adrodd o 1%. Roedd y profion positif hyn yn gysylltiedig â saith o gynhyrchion yr oedd yr ASB eisoes wedi'i hysbysu amdanynt ac a oedd eisoes wedi'u tynnu oddi ar y farchnad. Byddwn yn rhyddhau'r gyfres nesaf o ganlyniadau ddydd Gwener. Bydd canlyniadau pellach yn cael eu cyhoeddi ar 22 Chwefror a 29 Chwefror.

Ochr yn ochr â hynny, mae'r ASB wedi parhau ag arolwg DU-gyfan o gynhyrchion eidion wedi'u prosesu, a hynny fel rhan o'r cynllun pedwar cam a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr. Fel rhan o'r arolwg, mae awdurdodau lleol ledled y DU yn cymryd samplau ffurfiol. Gellir dibynnu ar y samplau ffurfiol hyn os bydd angen cymryd camau gorfodi ffurfiol. Yn ystod cam cyntaf yr ymchwiliad, cymerwyd 224 o samplau o gynhyrchion briwgig eidion amrwd, gan gynnwys byrgyrs, briwgig eidion, selsig eidion neu beli cig, a'u profi am DNA moch a cheffylau. Mae ail gam yr arolwg hwn yn cynnwys 140 o samplau o brydau parod sy'n seiliedig ar gig eidion, megis lasagne, chilli con carne, pastai'r bugail, rafioli, caneloni a sbageti bolognese wedi'u rhewi, eu hoeri neu mewn tun. Mae'r trydydd cam yn cael ei ddylunio ar hyn o bryd mewn ymateb i argymhelliad y Comisiwn Ewropeaidd i brofion cydgysylltiedig gael eu cymryd ym mhob Aelod-wladwriaeth. Bydd yr ASB yn cyhoeddi canlyniadau'r profion hyn ddiwedd mis Chwefror.

Ymchwiliad i'r gadwyn cyflenwi bwyd

Mae gan yr ASB gofnodion wedi'u harchwilio o ladd-dai ceffylau yn y DU, a arweiniodd at ymchwiliadau yn Peter Boddy Licensed Slaughterhouse, Todmorden, Gorllewin Swydd Efrog a Farmbox Meats Ltd, Llandre, Aberystwyth. O ganlyniad i'r ymchwiliadau hyn, a gynhaliwyd ochr yn ochr â Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gogledd Swydd Efrog, cafodd tri pherson eu harestio ar 14 Chwefror am droseddau dan y Ddeddf Twyll.

Aeth swyddogion yr ASB i dri safle arall yn Lloegr, ynghyd â'r Heddlu ac awdurdodau lleol ar 14 Chwefror – un yn Hull a dau yn Tottenham. Aethpwyd â chyfrifiaduron a thystiolaeth ddogfennol o'r safleoedd hyn, yn ogystal â samplau o gig i'w profi.

Mae'r ASB wedi cyflwyno ffeil llawn a thystiolaeth am y mater hwn i Europol. Mae'r Asiantaeth wedi parhau i ddarparu gwybodaeth i Europol ac mae'r wybodaeth hon wedi'i dadansoddi gan Europol ac asiantaethau gorfodi cyfraith mewn 35 o wledydd – ledled Ewrop a thu hwnt.

Mae'r ymchwiliadau hyn yn parhau.

Llinell amser (hyd at 20 Chwefror)

15 Ionawr 2013	FSAI yn cyhoeddi datganiad i'r wasg yn nodi bod dadansoddiad a gynhaliwyd ar rai cynhyrchion cig, gan gynnwys byrgyrs eidion, yn cynnwys DNA moch a cheffylau
16 Ionawr 2013	ASB yn cyhoeddi ei bod yn cynnal ymchwiliad brys ac yn amlinellu cynllun pedwar cam yr ymchwiliad
18 Ionawr 2013	Canlyniadau'r holl byrgyrs a gafodd eu profi am bute yn negyddol
24 Ionawr 2013	ASB yn ailadrodd na chaniateir i geffylau sydd wedi'u trin â bute fynd i mewn i'r gadwyn fwyd
25 Ionawr 2013	ASB yn cyhoeddi ei bod wedi derbyn canlyniadau a gynhaliwyd gan Safonau Masnach Gogledd Swydd Efrog
1 Chwefror 2013	ASB yn cyhoeddi ei bod wedi galw cyfarfod brys gyda manwerthwyr a chyflenwyr mawrion ar 4 Chwefror
4 Chwefror 2013	ASB a'r diwydiant yn cytuno i gyhoeddi rhaglen o brofion Cig ceffyl yn cael ei ddarganfod mewn storfa oer yng Ngogledd Iwerddon
6 Chwefror 2013	Cyhoeddi'r protocol profi cig
7 Chwefror 2013	Cynhyrchion Lasagne Eidion <i>Findus</i> yn profi'n bositif am gig ceffyl ASB yn cyhoeddi ei bod yn mynnu ymateb mwy cadarn gan y diwydiant
8 Chwefror 2013	ASB yn cyhoeddi ei bod wedi cynnwys yr heddlu yn yr ymchwiliad yma ac yn Ewrop Aldi yn dod o hyd i gig ceffyl yn ei lasagne eidion a'i sbageti bolognese
9 Chwefror 2013	ASB a Defra yn mynnu mwy o brofion dilysrwydd ar yr holl gynhyrchion eidion
10 Chwefror 2013	ASB yn cyhoeddi cyngor i sefydliadau cyhoeddus

- 11 Chwefror 2013 ASB yn cyhoeddi ei bod wedi dechrau system rhyddhau positif ar gyfer ceffylau a gaiff eu lladd yn y DU er mwyn sicrhau nad yw cig ceffyl sy'n cynnwys bute yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd
- Tesco yn dod o hyd i gig ceffyl mewn sbageti bolognese *Everyday Value*
- 12 Chwefror 2013 ASB a'r heddlu yn mynd i Ladd-dy Peter Boddy Licensed Slaughterhouse, Todmorden a Farmbox, Llandre
- 14 Chwefror 2013 Dynion yn cael eu harestio gan Heddlu Dyfed-Powys ar amheuaeth o droseddau dan y Ddeddf Twyll
- Rangeland Foods yn tynnu byrgyrs yn ôl o ganlyniad i halogiad gan gig ceffyl
- Cyhoeddi canlyniadau profion bute diweddaraf ar garcasau ceffylau a laddwyd yn y DU
- 15 Chwefror 2013 ASB yn cyhoeddi canlyniadau'r profion DNA cyntaf y diwydiant ar gynhyrchion eidion
- ASB yn cyhoeddi ei bod wedi hawlio tystiolaeth yn Hull ac yn Llundain
- 19 Chwefror 2013 Ehangu arolwg profi cig yr ASB
- 20 Chwefror 2013 Castell Howell Food Limited yn tynnu pastai'r bugail yn ôl fel cam rhagofalus.

John Griffiths AC /AM
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF-JG-0399-13

Lord Dafydd Elis-Thomas AM
Chair,
Environment and Sustainability
Committee
National Assembly for Wales

20 February 2013

Annwyl Dafydd,

The Clerk of the Committee raised some further queries regarding my recent letter to the Committee and I would like to offer the following additional information.

Questions 1 – 3.

My officials have been working with their colleagues at NRW to ensure that the Cash realisable benefits statement is based on the most up to date information and has been accepted by both the Welsh Government and NRW.

As a consequence Doc1 has been further updated to include additional costs such as increased pension contributions from 2014/15, Invest to Save contributions, potential voluntary exit scheme costs and other replicating parent body costs.

This shows that the latest estimate of benefits has improved by some £5m (not including inflation) since the business case. Costs have also increased, mainly because of increased pension cost estimates received from the EAPF within the last few days. These increases have arisen as a consequence of the deficit in EAPF, together with the need to make an allowance to cover the fact that EAPF (for NRW) will be a closed fund with increasing liabilities and reducing income over time.

As a general comment, I would emphasise that these figures are likely to change further as NRW takes the operational decisions necessary to implement the change.

Doc 2 which contained the details of the Cash Realisable Benefits Table extracted from the Business Case contained a number of transposition errors and these have now been corrected.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence: John.Griffiths@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

Question 4

I can confirm there is no discrepancy in the figures between the revised business case and the supplementary budget. The additional £1m funding in the Supplementary budget is separate to the NRW restructuring budget, and is to cover biodiversity funding, in particular the Ecosystem Resilience and Diversity Fund which is allocated through the same BEL.

Question 5

With reference to inflation not being accounted for in the original forecast table at Doc1, and as I have highlighted in the answer to question 3, my officials and colleagues from NRW have recently redrafted the cash realisable benefits in the revised forecast, and I can confirm that inflation estimates based on similar assumptions as the business case are now included in the revised Doc 1.

Question 6

For 12/13 the £5.866m in the forecast table is made up of the original £4.0m restructuring budget, plus £2.866m contribution from the current delivery bodies, much of which was carried forward balances from the previous financial year, less £1.0m in respect of revenue to capital transfer as agreed during 2nd Supplementary.

I trust the above clarifies the queries raised by the Clerk, but if you need further clarification I would be pleased to provide further details as required

Yn geywir,



John Griffiths AC / AM

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development

Business Case		2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19-	Total
		£000	£000	£000	£000	£000	£000	22/23 £000	£000
Costs:									
Capital		3,710	4,425	3,950	1,200	500	480	0	14,265
Revenue		3,792	5,473	6,351	7,100	4,210	4,051	8,460	39,437
Risk & Contingency			700	300	0	0	0	0	1,000
Inflation on Costs		150	376	600	663	471	544	1,110	3,914
Programme Costs	Wales Bodies (inc' overrun risk)	3,392	3,940	2,120					9,452
	FCGB	200							200
Total Costs		11,244	14,914	13,321	8,963	5,181	5,075	9,570	68,268
Funded by:									
Welsh Government	GiA	4,500	4,000	4,000					12,500
	Capital Fund bid	3,710	300						4,010
	Invest to Save bid	2,549	476	-1,513	-1,513				0
Wales Bodies contribution to Programme Costs		3,392	3,940	2,120					9,452
Cash Realisable Benefits	Baseline	0	6,962	9,298	12,389	14,118	14,232	71,159	128,158
	Inflation			186	248	282	285	1,423	2,424
Total Funding		14,151	15,678	14,092	11,124	14,400	14,517	72,582	156,544
Surplus/(Deficit)		2,907	764	771	2,161	9,219	9,442	63,012	88,276

Forecast		<u>2012/13</u>	<u>2013/14</u>	<u>2014/15</u>	<u>2015/16</u>	<u>2016/17</u>	<u>2017/18</u>	<u>2018/19-</u> <u>22/23</u>	<u>Total</u>
		<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>
Costs:									
Capital		5,018	4,761	1,950	1,200	500	480	0	13,909
Revenue		9,693	12,641	8,151	8,100	7,300	5,721	19,000	70,606
Inflation on Costs				202	376	477	511	2,834	4,400
Total Costs		14,711	17,402	10,303	9,676	8,277	6,712	21,834	88,915
Funded by:									
Tudalen 32 Welsh Government	GiA - Revenue	5,866	3,000						8,866
	GiA - Capital	1,000							1,000
	Rev to cap tfr	4,500							4,500
	Invest to Save - IT/HR	2,549	4,226	-1,513	-3,263	-2,000			0
GiA reduction									0
Cash Realisable Benefits	Baseline	0	4,052	6,187	13,054	13,493	16,009	80,645	133,440
	Inflation			124	527	826	1,320	12,027	14,824
Total Funding		13,915	11,278	4,799	10,319	12,319	17,328	92,672	162,629
Surplus/(Deficit)		-796	-6,124	-5,504	643	4,041	10,616	70,839	73,715

The NRW business case predicted the contribution to overall benefits from the merger shown in the table below:

Cash Realisable Wales Bodies : Benefits		<u>2013/14</u>	<u>2014/15</u>	<u>2015/16</u>	<u>2016/17</u>	<u>2017/18</u>	<u>2018/19 -2022-23</u>	<u>Total</u>
		<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>
	Amalgamation of Training Budgets of 3 Organisations	34	284	430	430	430	2,150	3,758
	Estate Rationalisation	633	633	634	634	635	3,175	6,344
	Finance non staff costs EAW	13	28	43	43	43	215	385
	Operational Field Workforce - rationalisation of fleet	315						315
	CIS net benefit	-806	-584	277	1051	1,077	5,385	6,400
	Comms' - item 3Public Info non staff costs	39	39	39	39	39	195	390
	Operational Field Workforce - Plant running costs	115	172	187	187	187	933	1,780
	Operational Field Workforce - Contracted out work	169	253	275	275	275	1,375	2,623
	Legal non staff	99	99	99	99	99	495	990
	Senior Manager salary savings	630	630	630	630	630	3,150	6,300
	Wales body Staff costs	406	915	1135	1615	1,667	8,336	14,075
	Unallocated HO costs from 2017/18	728	728	728	728	728	3,640	7,280
	Superannuation savings available from 13/14 paid in 11/12	667						667
Cash Realisable Benefits	EA Head Office	3,702	5,502	6,749	6,753	6,753	33,765	63,224
Cash Realisable Benefits	FCGB	217	599	1,163	1,634	1,669	8,345	13,627
Cash Realisable Benefits	Inflation on Cash Realisable benefits	0	186	248	282	285	1,423	2,424
Total		6,961	9,484	12,637	14,400	14,517	72,583	130,582